

LIC20-24

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru yn ystod y Pandemig COVID-19) (Cymru) 2020

Gwnaed 22 Mai 2020

Yn dod i rym 23 Mai 2020

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13(2)(c) a 4(c), 203(9) a (10), a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru yn ystod y Pandemig COVID-19) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu gwneud ar 22 Mai 2020 a deuant i rym ar 23 Mai 2020.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "AILIC" ("*EHEW*") yw Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru;

ystyr "Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru" ("*Eye Health Examination Wales*") yw Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru sy'n trefnu'r ddarpariaeth o archwiliadau iechyd llygaid i

gleientiaid y mae'n ofynnol iddynt gael archwiliad o'r fath, rhoi cyngor i gleientiaid o'r fath, eu hatgyfeirio ymlaen i wasanaethau pellach a rhoi gwybod i'r cleientiaid hynny am wasanaethau pellach fel y darperir ar eu cyfer gan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o un flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol perthnasol" ("*relevant host Local Health Board*") yw—

(a) at ddibenion Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a

(b) at ddibenion Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;

ystyr "GGGC" ("*LVS*") yw Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru;

ystyr "Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru" ("*Low Vision Service Wales*") yw'r gwasanaeth cenedlaethol a elwir Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru sy'n trefnu'r ddarpariaeth o asesiadau golwg gwan a chymorth adsefydlu i gleientiaid ac yn sicrhau'r ddarpariaeth o gymhorthion golwg gwan i gleientiaid fel y darperir ar eu cyfer gan Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016;

ystyr "Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru" ("*Wales Eye Care Services*") yw Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru ac mae'n cynnwys unrhyw ofal llygaid brys neu mewn argyfwng a ddarperir fel rhan o'r gwasanaethau hynny;

ystyr "TMCGLIC" ("*WECSAMP*") yw'r Taliad Misol Cyfartalog Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru sy'n daladwy i ymarferydd achrededig am ddarparu Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn;

ystyr "ymarferydd achrededig" ("*accredited practitioner*") yw ymarferydd sy'n bodloni'r holl ofynion achredu a nodir—

(a) at ddibenion Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru, ym mharagraff 9 o'r Fanyleb yn yr Atodlen i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016(1), a

(1) 2016 Rhif 10.

- (b) at ddibenion Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, ym mharagraff 11 o'r Fanyleb yn yr Atodlen i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016(1).

Taliadau Misol Cyfartalog Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru yn ystod y Pandemig COVID-19

3.—(1) Mae Taliad Misol Cyfartalog Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru, a gyfrifir yn unol â pharagraff 4 neu 5, yn daladwy i ymarferydd achrededig am ddarparu Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru o 17 Mawrth 2020 ymlaen.

(2) Bydd ymarferydd achrededig sy'n darparu unrhyw ofal llygaid brys neu mewn argyfwng ar ôl 17 Mawrth 2020 yn cael taliad o 25% o werth TMCGLIC a gyfrifir ar gyfer yr ymarferydd achrededig hwnnw, yn ogystal â'i TMCGLIC.

(3) Bydd TMCGLIC ymarferydd achrededig yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau misol, ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg o bob mis calendr.

Cyfrifo gwerth TMCGLIC ar gyfer ymarferwyr achrededig a chanddynt o leiaf 3 blynedd o hanes o hawliadau GIG

4.—(1) Bydd gwerth TMCGLIC ar gyfer ymarferydd achrededig sydd wedi gwneud hawliadau GIG am naill ai taliadau GGGC neu daliadau AILIC am gyfnod o 3 blynedd o leiaf cyn y dyddiad y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r hawliadau GIG am GGGC ac AILIC a wnaeth yr ymarferydd achrededig ar gyfer pob mis yn ystod y 3 blynedd ariannol cyn y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym, fel a ganlyn—

- (a) swm hawliadau'r ymarferydd achrededig am GGGC ac AILIC a wnaed ar gyfer pob mis calendr yn ystod blynyddoedd ariannol 2017-2018 (*HBA17*), 2018-2019 (*HBA18*) a 2019-2020 (*HBA19*) wedi ei rannu â 36, a
- (b) gellir mynegi gwerth TMCGLIC a gyfrifir at ddibenion y paragraff hwn fel a ganlyn—

Gwerth TMCGLIC =

$$(HBA17 + HBA18 + HBA19) \div 36.$$

Cyfrifo gwerth TMCGLIC ar gyfer ymarferwyr achrededig a chanddynt lai na 3 blynedd o hanes o hawliadau GIG

5.—(1) Bydd gwerth TMCGLIC ar gyfer ymarferydd achrededig sydd wedi gwneud hawliadau GIG am daliadau GGGC neu daliadau AILIC am

(1) 2016 Rhif 11.

gyfnod o lai na 3 blynedd cyn y dyddiad y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r hawliadau GIG am GGGC ac AILIC yn unol ag is-baragraffau (2) i (5) fel y bônt yn gymwys.

(2) Bydd gwerth TMCGLIC ar gyfer ymarferydd achrededig sydd wedi gwneud hawliadau GIG am gyfnod cyfansymiol o 12 mis o leiaf ond dim mwy na 36 mis cyn y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r hawliadau GIG am GGGC ac AILIC a wnaeth yr ymarferydd achrededig ar gyfer pob mis yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020 fel a ganlyn—

- (a) swm hawliadau'r ymarferydd achrededig am GGGC ac AILIC fesul mis ar gyfer y 12 mis o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020 yn gynhwysol (*SHM*) wedi ei rannu â 12, a
- (b) gellir mynegi gwerth TMCGLIC a gyfrifir at ddibenion yr is-baragraff hwn fel a ganlyn—

$$\text{Gwerth TMCGLIC} = \text{SHM} \div 12.$$

(3) Bydd gwerth TMCGLIC ar gyfer ymarferydd achrededig sydd wedi gwneud hawliadau GIG am gyfnod cyfansymiol o 6 mis o leiaf ond dim mwy na 12 mis cyn y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r hawliadau GIG am GGGC ac AILIC a wnaeth yr ymarferydd achrededig ar gyfer 6 mis olaf blwyddyn ariannol 2019-2020 fel a ganlyn—

- (a) swm hawliadau'r ymarferydd achrededig am GGGC ac AILIC fesul mis ar gyfer 6 mis, sef mis Hydref 2019 i fis Mawrth 2020 yn gynhwysol (*SHM*) wedi ei rannu â 6, a
- (b) gellir mynegi gwerth TMCGLIC a gyfrifir at ddibenion yr is-baragraff hwn fel a ganlyn—

$$\text{Gwerth TMCGLIC} = \text{SHM} \div 6.$$

(4) Bydd gwerth TMCGLIC ar gyfer ymarferydd achrededig sydd wedi gwneud hawliadau GIG am gyfnod cyfansymiol o 3 mis o leiaf ond dim mwy na 6 mis cyn y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r hawliadau GIG am GGGC ac AILIC a wnaeth yr ymarferydd achrededig ar gyfer 3 mis olaf blwyddyn ariannol 2019-2020 fel a ganlyn—

- (a) swm hawliadau'r ymarferydd achrededig am GGGC ac AILIC fesul mis ar gyfer 3 mis, sef mis Ionawr, mis Chwefror a mis Mawrth 2020 (*SHM*) wedi ei rannu â 3, a
- (b) gellir mynegi gwerth TMCGLIC a gyfrifir at ddibenion yr is-baragraff hwn fel a ganlyn—

$$\text{Gwerth TMCGLIC} = \text{SHM} \div 3.$$

(5) Bydd gwerth TMCGLIC ar gyfer ymarferydd achrededig sydd wedi gwneud hawliadau GIG am gyfnod cyfansymiol o lai na 3 mis cyn y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym yn cael ei gyfrifo drwy

ddefnyddio'r hawliadau GIG am GGGC ac AILIC a wnaeth yr ymarferydd achrededig ar gyfer pob mis yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020 fel a ganlyn—

- (a) swm hawliadau'r ymarferydd achrededig am GGGC ac AILIC fesul mis (*SHM*) wedi ei rannu â nifer y misoedd y cyflwynwyd hawliadau ar eu cyfer (*NHM*), a
- (b) gellir mynegi gwerth TMCGLIC a gyfrifir at ddibenion yr is-baragraff hwn fel a ganlyn—

$$\text{Gwerth TMCGLIC} = \text{SHM} \div \text{NHM}.$$

Amodau sydd ynghlwm wrth Daliadau Misol Cyfartalog Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru

6. Nid yw TMCGLIC, neu unrhyw rhan ohono, ond yn daladwy os yw'r ymarferydd achrededig yn bodloni'r amodau a ganlyn—

- (a) rhaid i'r ymarferydd achrededig roi ar gael i'r Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol perthnasol unrhyw wybodaeth nad oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol perthnasol ond y mae ei hangen arno, ac sydd naill ai gan yr ymarferydd achrededig neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo gael gafael arni, er mwyn cyfrifo TMCGLIC yr ymarferydd achrededig,
- (b) rhaid i'r ymarferydd achrededig gynnal cofnodion cywir o holl weithgarwch Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru yr ymgwymerir ag ef, gan gynnwys gofal llygaid brys ac mewn argyfwng, ac
- (c) rhaid i'r holl wybodaeth a roddir gan yr ymarferydd achrededig i'r Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol perthnasol yn unol â'r paragraff hwn fod yn gywir hyd eithaf gwybodaeth a chred yr ymarferydd achrededig.

7. Os yw'r ymarferydd achrededig yn torri unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff 6, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol cynhaliol perthnasol, o dan amgylchiadau priodol, gadw'n ôl TMCGLIC, neu unrhyw ran ohono, sydd fel arall yn daladwy.

Diwygiad i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016

8. Ym mharagraff 5 o Atodlen 1 i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016—

- (a) yn lle paragraff 5.1 rhodder—

“5.1 Having carried out an eye health examination of a client, an accredited practitioner must send the record of examination

(Wales Eye Care Service Form (WECS1)) to the SSP within a period of 4 weeks, beginning with the date on which the examination was completed.”, a

(b) ar ôl paragraff 5.1 mewnosoder—

“5.1A Accredited practitioners will be reimbursed for their provision of EHEW in accordance with the National Health Service (Wales Eye Care Services payments during the COVID-19 Pandemic) (Wales) Directions 2020.”.

Diwygiad i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016

9. Ym mharagraff 7 o Atodlen 1 i Gyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016—

(a) yn lle paragraff 7.1 rhodder—

“7.1 Having carried out a low vision assessment of a client, an accredited practitioner must send the record of assessment to the host LHB within a period of 4 weeks, beginning with the date on which the assessment was completed.”, a

(b) ar ôl paragraff 7.1 mewnosoder—

“7.1A Accredited practitioners will be reimbursed for their provision of LVSW in accordance with the National Health Service (Wales Eye Care Services payments during the COVID-19 Pandemic) (Wales) Directions 2020.”.



Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 22 Mai 2020